

PROFIAD Y PRENTIS



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



Ellie Morgan

**Prentis
2019-2020**

**Fe astudiodd
Diploma
Lefel 2
(Hyfforddiant ACT)**



“Roeddwn i’n hynod gyffrous i ddechrau fy mhrentisiaeth gan fy mod yn teimlo y byddai’n brofiad amhrisiadwy ac yn gyfle i ennill cymhwyster cydnabyddedig tra hefyd yn gweithio’n llawn amser ym maes AD. Roedd fy nyletswyddau a chyfrifoldebau yn cynnwys cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd, sicrhau bod nodiadau camau gweithredu cywir yn cael eu dosbarthu i gydweithwyr, gweinyddu cyrsiau, trefnu a chynnal systemau ffeilio, cydlynu sesiynau gwerthuso hyfforddiant a rheoli cofnodion hyfforddiant prentisiaeth.

Drwy gydol fy mhrentisiaeth, datblygais amrywiaeth o sgiliau gwahanol sydd wir wedi fy helpu i ddatblygu gyrfa mewn AD. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau cyfathrebu, cymdeithasol, trefnu a rheoli amser. Roedd elfen NVQ y rhaglen yn cynnwys gwneud aseiniadau i gwblhau modiwlau a oedd yn seiliedig ar waith a gweithio'n llawn amser fel prentis i'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol. Roeddwn yn cyfarfod bob 4 wythnos â fy aseswr NVQ i drafod cynnydd a chyflwyno tystiolaeth i fodloni meini prawf y modiwl. Cefais gefnogaeth lawn gan fy nghydweithwyr o fewn y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol a oedd bob amser ar gael i helpu os oeddwn yn ansicr o unrhyw beth.

Ar ôl cwblhau fy mhrentisiaeth yn 2020, cefais swydd barhaol yn y Tîm Cyflogwr Arweiniol Sengl.

Yn 2022, llwyddais i gael fy mhenodi’n Bartner Busnes Cyswllt Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan gefnogi a hyfforddi rheolwyr llinell gyda chysylltiadau gweithwyr, absenoldeb salwch a recriwtio. Rwy'n mwynhau fy swydd yn fawr ac mae gennyf dîm cefnogol iawn o'm cwmpas. Rwy’n gobeithio aros gyda PCGC am amser hir ac ehangu fy sgiliau yng ngwahanol feysydd AD.”



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

GWERTHOEDD CRAIDD PCGC